

# Lles yn yr 21<sup>ain</sup> Ganrif

## Crynodeb Byr

Nododd Iain Duncan Smith, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, ei gynlluniau i weddnewid y system budd-daliadau yn y papur *Lles yn yr 21<sup>ain</sup> Ganrif*. Fe'i cyhoeddwyd ar 30 Gorffennaf 2010.

Mae'n cynnig helpu pobl i symud i mewn i waith drwy adael iddynt gadw mwy o'u henillion. Byddai hyn yn sicrhau bod manteision gwaith yn eglur ac yn hawdd eu deall.

Byddai diwygio mawr o ran ystod y credydau a budd-daliadau sydd ar gael, a sut y bydd yr help gan y rhain yn lleihau'n raddol wrth i bobl ddechrau ar waith a datblygu ynddo.

Gallai'r cynigion ar gyfer system budd-daliadau symlach:

- Gyfuno rhannau o'r systemau budd-daliadau a Chredydau Treth cyfredol,
- Symleiddio'r cymorth ariannol sydd ar gael i bobl sy'n gweithio a phobl ddi-waith, a
- Rhoi cymorth ychwanegol ar gyfer pethau fel tai, plant ac anabled.

Byddai pobl yn cael eu hysgogi i gael swydd gan na fyddent yn colli budd-daliadau nes bod eu henillion yn cyrraedd lefel benodol. Dros y lefel hon byddai budd-daliadau'n gostwng yn raddol wrth i enillion pobl gynyddu. Gan nad yw cymorth yn gysylltiedig â'r oriau y gallant weithio, bydd pobl hefyd yn gallu datblygu eu gyrfaedd.

Caiff system dalu awtomatig fodern ei chyflwyno. Bydd hyn yn hwyluso ymateb cyflym a hyblyg i newid mewn amgylchiadau. Felly gall pobl fod yn siŵr eu bod yn cael y cymorth cywir hyd yn oed os ydynt yn gwneud gwaith dros dro.

Bydd y system symlach hon yn lleihau nifer y camgymeriadau ac achosion o dwyll, a fydd yn golygu bod angen i gwsmeriaid dreulio llai o amser yn cwblhau ffurflenni pan ddaw swydd i ben.

Yn gyffredinol, nod y syniadau fydd darparu system les fforddiadwy ar gyfer y dyfodol. O ganlyniad gallwn sicrhau y caiff pobl na allant weithio yr holl gymorth sydd ei angen arnynt.

Bydd cyfnod ymgynghori ar y newidiadau hyn rhwng 30 Gorffennaf 2010 a 1 Hydref 2010.

Gallwch ddarllen y papur llawn ar-lein yn:  
[www.dwp.gov.uk/21st-century-welfare](http://www.dwp.gov.uk/21st-century-welfare)